Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Parc Coedwig Dyfnant Forest Park

# Pen y Ffordd

Llwybrau'r Enfys Dyfnant
Dyfnant's Rainbow Trails

## Croeso i Goedwig Dyfnant
## Lle braf i farchogaeth

**Mae Coedwig Dyfnant mewn rhan o Gymru sy'n enwog am ei bryniau tonnog, ei dyffrynnoedd gwyrdd ffrwythlon a'i phentrefi a'i ffermydd tlws.**

Mae'n ardal sydd hefyd yn gyfoethog ei hanes. Arferai Owain Glyndŵr, y tywysog a fu'n ymladd dros annibyniaeth i Gymru a Chymru unedig, farchogaeth dros y bryniau hyn ar un adeg.

Erbyn heddiw, mae'n nodedig am gyfleusterau ar gyfer marchogaeth a gyrru cart a cheffyl.

### Cartref i'r Llwybrau Marchogaeth Enfys

Coedwig Dyfnant yw cartref Llwybrau Enfys Dyfnant, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Marchogion a Gyrwyr Cart a Cheffyl Dyfnant ac Efyrnwy.

- Mae bron i 100 milltir o lwybrau ar gael
- Mae arwyddbyst a chod lliw ar bob llwybr
- **Pen y Ffordd** yw canolbwynt y llwybrau ar gyfer **marchogion**
- **Hendre** yw man cychwyn y llwybrau **gyrru cart a cheffyl**
- Coetir bychan yw **Pont Llogel** gyda thaith gerdded fer ag arwyddbyst hyd Afon Efyrnwy a mynediad i ddwy daith gerdded hirach sydd o dan ofal Cyngor Sir Powys a Llwybr Cenedlaethol *Llwybr Glyndŵr*.

### Gyrrwyr Car a Cheffyl - Sut i gyrraedd Hendre:

O'r maes parcio trowch i'r chwith ar y B4395 (A458 Llangadfan tuag at Lyn Efyrnwy). Dilynwch y ffordd hon am filltir a hanner cyn troi i'r chwith ger bythynnod Hendre ar y gornel. Mae maes parcio Hendre 300 metr i fyny'r ffordd hon ar yr ochr dde.

## Welcome to Dyfnant Forest
## A great place to ride

**Dyfnant Forest is in a part of Wales renowned for its rolling hills, lush green valleys and picturesque farmsteads and villages.**

It is an area rich in history, too. Owain Glyndwr, the Welsh prince who fought for Welsh independence and united Wales, once rode these hills.

Nowadays it is well known for the facilities for horse riding and carriage driving.

### Home of the Rainbow Horse Riding Trails

Dyfnant Forest is the home of the Dyfnant Rainbow Trails, which were developed in partnership with the Dyfnant and Vyrnwy Horse Riders and Carriage Drivers Association.

- There are nearly 100 miles of tracks and trails
- All trails are all waymarked and colour-coded
- **Pen y Ffordd** is the hub for the routes for **horse riders**
- **Hendre** is the starting point for the **carriage driving routes**
- **Pont Llogel** is a small woodland with a waymarked short walk along the River Vyrnwy and access to two longer walks looked after by Powys County Council and *Glyndŵr Way* National Trail.

### Carriage Drivers - How to get to Hendre:

From the car park turn left onto the B4395 (from A458 Llangadfan heading to Lake Vyrnwy). Follow this road for one and a half miles before turning left by Hendre cottages on the corner. The Hendre car park is 300 metres up this road on the right-hand side.




Atgynhyrchir y mapiau hyn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019741.
These maps are based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019741.

## Llwybrau'r Enfys Dyfnant
## Dyfnant's Rainbow Trails

| Llwybrau Marchogaeth | Horse Riding Trails |
|---|---|
| **Melangell 7m/11km 1.5awr/hrs ◆** | |
| Dilynwch ôl troed Santes Melangell ac edrychwch dros fryn creigiog Allt Dolanog | Follow in the footsteps of St. Melangell with a view of the craggy hill of Allt Dolanog |
| **Cae Penfras 6m/10km 1.5awr/hrs ◆◆◆** | |
| Mwynhewch y golygfeydd godidog dros ddyffryn Efyrnwy | Take in some amazing views of the Vyrnwy valley |
| **Cwm Bach 16m/26km 3awr/hrs ◆◆** | |
| Tuthiwch ar hyd rhan o lwybr cenedlaethol Llwybr Glyndŵr; oddi yma fe welwch olygfeydd ysblennydd o ddyffryn Conwy | Trot along part of Glyndŵr's Way national trail with impressive views of the Conwy valley |
| **Banw 5m/8km 1awr/hr** | |
| Cewch fwynhau golygfeydd gwych o ddyffryn Banw ar y llwybr hwn sy'n addas i farchogion dibrofiad | Enjoy excellent views of the Banw valley on this trail suitable for novice riders |
| **Cerrig Yr Helfa 16m/26km 3awr/hrs ◆◆◆** | |
| Bydd y llwybr yn eich arwain heibio cerrig hela Cerrig yr Helfa a chewch weld golygfeydd hyfryd dros yr Aran a'r Berwyn | The trail will lead you past the Cerrig yr Helfa hunting stones and give lovely views over the Arran and Berwyn mountains |

**Nifer o rannau anodd/number of challenging sections ◆**

### Mae cyfleusterau i farchogion yma ym maes parcio Pen y Ffordd yn cynnwys:

- maes parcio pwrpasol a chanddo system unffordd er mwyn galluogi gyrwyr cerbydau cludo ceffylau i lwytho a dadlwytho
- digon o lefydd parcio ar gyfer ceir a cherbydau cludo ceffylau
- corlan ar gyfer ceffylau
- pum llwybr marchogaeth ag arwyddbyst

### Facilities for horse riders here at Pen y Ffordd car park include:

- purpose built car park with a one-way system to allow drivers of horse boxes to roll in and roll out
- ample parking for horse trailers and cars
- corral for horses
- five waymarked horse-riding trails

Coedwig weithiol yw Dyfnant. Er mwyn gwneud yn siŵr nad ydyw'r ardal rydych am ymweld â hi wedi cael ei chau oherwydd gwaith sydd yn cael ei wneud yno.

Dyfnant is a working forest. Please check the area that you wish to visit is not closed due to work in progress.




www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

- parcio / parking
- canolfan ymwelwyr / visitor centre
- toiledau / toilets
- golygfan / viewpoint
- postyn lleoliad / location post
- lle picnic / picnic area
- llwybrau cerdded / walking trails
- llwybrau marchogaeth / horse riding trails
- llwybrau gyrru cart a cheffyl / carriage driving trails